# Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru

Llogi Cyfleusterau

# St Fagans: National History Museum

Venue Hire



# Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru

yw un o brif amgueddfeydd awyr agored y byd ac atyniad treftadaeth mwyaf poblogaidd Cymru. Saif yr Amgueddfa ynghanol gerddi godidog Castell Sain Ffagan ar gyrion Caerdydd, ac mae'n gartref i dros ddeugain o adeiladau hanesyddol a symudwyd garreg wrth garreg o wahanol rannau o'r wlad. Mae Sain Ffagan yn dangos i ni sut roedd y Cymry'n byw ac yn gweithio drwy'r oesoedd.

Mae gan Sain Ffagan nifer o leoliadau cwbl unigryw y gallwch eu llogi yn ystod y dydd neu fin nos. Gyda Gerddi'r Amgueddfa, y Castell, Sefydliad Gweithwyr Oakdale, Oriel 1 ac amryw o lefydd hyblyg eraill, rydych chi'n siŵr o ganfod y lleoliad perffaith i'ch digwyddiad.

Bydd yr holl elw o drefniadau Llogi Cyfleusterau yn helpu i gynnal a chadw a gweinyddu'r Amgueddfa.

# St Fagans: National History Museum

is one of the world's leading open-air museums and Wales's best loved heritage attraction. Set in the beautiful grounds of the magnificent St Fagans Castle on the outskirts of Cardiff, the Museum is home to over forty historical buildings moved stone-by-stone from different parts of Wales. St Fagans tells the story of how Welsh people lived and worked through the ages.

St Fagans offers several totally unique venues that are available for daytime or evening hire. With the Museum Gardens, the Castle, Oakdale Workmen's Institute, Oriel 1 and a range of other flexible spaces, you're sure to find the perfect location for your event.

All profits from Venue Hire help towards maintaining and running the Museum.









## Neuadd y Castell

Mae'r maenordy hwn o oes Elizabeth yn lleoliad perffaith ar gyfer seremoni briodas fach, ac yn llawn tapestrïau goludog, celfi wedi'u brodio, celfi rhosbren a choed derw hyfryd a phaentiadau olew hardd. Mae gerddi'r Castell yn ddelfrydol ar gyfer gwledd mewn pabell.

## Bwtri ac Ystafell Fwyta'r Castell

Mae'r ystafelloedd hyn, sydd newydd eu hadnewyddu, ar gael i'w llogi ar gyfer llu o ddigwyddiadau, o ddiwrnodau hyfforddi a chiniawau corfforaethol, i de prynhawn neu ginio ffurfiol yn dilyn priodas.

## Gerddi

Mae ein Gerddi ffurfiol, yr Ardd Eidalaidd a'r Ardd Rosod Edwardaidd yn lleoliad hardd heb ei ail ar gyfer priodasau, partïon gardd neu ddigwyddiadau corfforaethol.

## Oriel 1

Mae'r oriel arloesol hon yn edrych ar hunaniaeth a diwylliant y Cymry ac yn cynnig lleoliad cwbl unigryw ar gyfer derbyniad diodydd, digwyddiad lansio, darlith neu gyflwyniad – lle delfrydol i groesawu a chyflwyno mynychwyr cynadleddau o'r DU a thramor i Gymru.

## Castle Hall

A perfect venue for an intimate wedding ceremony, this Elizabethan manor house boasts rich tapestries, embroidered furniture, opulent rose-wood and oak furniture and wonderful oil paintings. The Castle grounds are ideal for a marquee reception.

## Castle Buttery & Dining Room

These newly refurbished rooms can be hired for a host of events from training days and corporate dining, to afternoon tea or a formal dinner following a wedding ceremony.

## Gardens

Our formal Gardens, Italian Garden and Edwardian Rosery offer a beautiful setting and unequalled talking point for wedding parties, garden parties or corporate events.

## Oriel 1 Gallery

This innovative gallery explores Welsh identity and culture and offers a truly unique venue for a drinks reception, launch event, lecture or presentation – an ideal space to welcome and introduce UK and international conference delegates to Wales.









## Sefydliad Gweithwyr Oakdale

Mae'r adeilad hwn yn cynnig lle hyblyg – ystafell ddarllen, ystafell gyfarfod a neuadd gyngerdd gyda llawr addas ar gyfer dawnsio a llwyfan ar gyfer adloniant. Mae gan yr adeilad drwydded lawn i gynnal priodasau hefyd.

## Tŷ Gwyrdd a'r Ardd

Mae'r safle ecogyfeillgar hwn yn ddelfrydol ar gyfer cyfarfodydd, gweithdai a derbyniadau gyda defnydd o ardd breifat i chi eich hun.

## Ystafell Gyfarfod

Ystafell bwrpasol, olau, gyda digon o lefydd parcio gerllaw, all ddal hyd at 20 o bobl ar gyfer cyfarfodydd.

## Ystafell Iolo Morganwg

O'r ystafell hon gallwch weld golygfeydd hyfryd o Sain Ffagan, ac mae'n ddelfrydol ar gyfer digwyddiadau preifat a chorfforaethol o bob math.

## Bwyty'r Fro

Mae'r bwyty modern smart hwn ar gael i'w logi min nos a gellir ei gyfuno gydag Ystafell Iolo Morganwg ar gyfer nifer o ddigwyddiadau gwahanol.

## Oakdale Institute

Oakdale offers flexible space comprising a Reading Room, Meeting Room and Concert Hall with a sprung floor for dancing and a stage for entertainment. Oakdale is also fully licensed for wedding ceremonies.

## Ty Gwyrdd & Garden

This eco-friendly space is ideal for meetings, workshops and receptions with access to an exclusive private garden.

## Committee Room

A light, purpose-built room, close to ample parking facilities which gives well proportioned meeting space suitable for up to 20 delegates.

## Iolo Morganwg Room

This room offers stunning panoramic views of St Fagans countryside and is ideal for private and corporate events of all kinds.

## The Vale Restaurant

This stylish, modern space is available for evening hire and can be combined with the Iolo Morganwg Room for a host of events.









# Y tîm...

Mae ein tîm rheoli digwyddiadau pwrpasol a'n harlwywr arbennig yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i sicrhau bod eich digwyddiad yn llwyddiant ysgubol. Gallwch lawrlwytho pecynnau bwydlenni blasus o'n gwefan.

# Barn ein cleientiaid...

*Diolch i chi a'ch cydweithwyr am eich holl gymorth a sicrhaodd fod y seremoni wobrwyo wythnos diwethaf mor llwyddiannus. Roedd y lleoliad yn rhagorol a'r holl staff mor barod i helpu. Roedd y lleoliad wedi creu argraff fawr ar bawb a phawb wedi mwynhau eu hunain yn arw.*
Rheolwr, Cynllun Bwrsariaeth Sgiliau Adeiladu Traddodiadol

*Diolch i chi am yr amser wnaethoch chi a'ch tîm ei wario arnom ni neithiwr. Fe wnaeth y sylw personol hwn ein digwyddiad yn un arbennig iawn. Roedd pawb wedi mwynhau a'r sêr i'w gweld hyd yn oed. Rwy'n gobeithio y byddwn ni'n defnyddio Sain Ffagan eto gan ei fod yn lleoliad gwych.*
Pennaeth Cyfathrebu, Admiral Group ccc

### Cysylltwch â ni...

Am ragor o wybodaeth neu i drefnu apwyntiad i weld ein cyfleusterau gydag aelod o'r tîm Llogi Cyfleusterau cysylltwch trwy'r dulliau canlynol:

**Ffôn:** (029) 2057 3500
**Ffacs:** (029) 2057 3490
**Ebost:** llogi@amgueddfacymru.ac.uk

www.amgueddfacymru.ac.uk

Dewch o hyd i ni ar Facebook
Dilynwch ni ar Twitter

# The team...

Our dedicated event management and first class caterer provide the highest level of quality and service to ensure your event is a resounding success. Delicious menu packs are available to download from our website.

# What our clients say...

*I just wanted to thank you and your colleagues for all your help in making last week's Award ceremony so successful. The venue was excellent and all the staff at the Museum couldn't have been more accommodating. Everyone I have spoken to was very impressed with the venue and thoroughly enjoyed themselves.*
Manager, Traditional Building Skills Bursary Scheme

*Thank you for the time you and your team took with us last night. It made it a special event to have such personal attention. Everyone thoroughly enjoyed it and even the stars shone. I hope that we will use St Fagans again as it's such a great venue.*
Head of Communications, Admiral Group Plc

### Contact us...

For further information or to make an appointment to view our facilities with a member of the Venue Hire team please contact:

**Tel:** (029) 2057 3500
**Fax:** (029) 2057 3490
**Email:** venue.hire@museumwales.ac.uk

www.museumwales.ac.uk

Find us on Facebook
Follow us on Twitter

# Ffilmio a Ffotograffiaeth

Mae Amgueddfa Cymru yn croesawu ceisiadau i ffilmio yn cynnwys ffilmiau nodwedd, dramâu teledu, rhaglenni dogfen, rhaglenni ffeithiol, cyfweliadau a sesiynau ffotograffiaeth.

Mae ein saith amgueddfa'n cynnig amrywiaeth o leoliadau unigryw – o adeiladau hanesyddol i eco-dŷ o'r unfed ganrif ar hugain, deinosoriaid i orielau celf, gerddi ffurfiol i bwll glo.

Mae dramâu teledu a ffilmiwyd yn ein hamgueddfeydd yn cynnwys *Dr Who*, *Torchwood*, *Sherlock*, *Pobol y Cwm* a *Gwaith Cartref*. Rydym hefyd wedi ymddangos ar *Snowdonia 1850*, *The Coal House* ac *Ancient Britain* ac wedi bod yn lleoliad i'r gyfres boblogaidd *Antiques Roadshow* yn ddiweddar.

Mae'r holl elw o ffilmio masnachol yn helpu i gynnal a chadw a gweinyddu'r Amgueddfeydd.

**Cysylltwch â ni…**

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag aelod o'r tîm Ffilmio Masnachol.

**Ebost:** filming@museumwales.ac.uk
**Ffôn:** 029 2057 3327 / 3129
**Ffacs:** 029 2057 3326

www.amgueddfacymru.ac.uk

Edrychwn ymlaen at glywed gennych chi!

# Filming and Photography

Amgueddfa Cymru – National Museum Wales welcomes filming requests including feature films, television dramas, documentaries, factual programmes, interviews and photographic shoots.

All seven of our museums offer a range of unique locations - from historic buildings to a 21st century eco-house, dinosaurs to art galleries, formal gardens to a coal mine.

TV dramas filmed at our museums include *Dr Who*, *Torchwood*, *Sherlock*, *Pobl y Cwm* and *Gwaith Cartref*. We have also appeared in *Snowdonia 1850*, *The Coal House* and *Ancient Britain* and have recently hosted the much loved *Antiques Roadshow*.

All profit made from commercial filming helps maintain and run our Museums.

**Contact us…**

For further information please contact a member of the Commercial Filming team.

**Email:** filming@museumwales.ac.uk
**Tel:** 029 2057 3327 / 3129
**Fax:** 029 2057 3326

www.museumwales.ac.uk

We look forward to hearing from you!

# Hanes ar Log…

**Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**

**Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru yng Nghaerdydd**

**Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru ym Mlaenafon**

**Amgueddfa Wlân Cymru yn Dre-fach Felindre, ger Castellnewydd Emlyn**

**Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis**

**Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yng Nghaerllion, ger Casnewydd**

**Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe**

# History for Hire…

**National Museum Cardiff**

**St Fagans: National History Museum in Cardiff**

**Big Pit: National Coal Museum in Blaenafon**

**National Wool Museum in Dre-fach Felindre, near Newcastle Emlyn**

**National Slate Museum in Llanberis**

**National Roman Legion Museum in Caerleon, near Newport**

**National Waterfront Museum in Swansea**

**www.amgueddfacymru.ac.uk** **www.museumwales.ac.uk**